

Cofnodion Cyngor Cymuned Trawsgoed a gynhaliwyd ar Nos Lun 8fed Ebrill 2024  
am 7.30 y.h. yn Ysgol Gynradd Llanfihangel-y-Creuddyn.  
Minutes of Trawsgoed Community Council held on Monday 8th April, 2024 at  
7.30 p.m. held at Llanfihangel-y-Creuddyn Primary School

**Presennol/Present:** Cyng./Cllr. C. Lloyd-Morgan (Cadeirydd/Chair)  
Cyng./Cllr. P. Bonner, Cyng./Cllr. A. Davies, Cyng./Cllr. M. Davies, Cyng./Cllr. P. Davies  
Cyng./Cllr. A. Evans, Cyng./Cllr. Sh. Edwards, Cyng./Cllr. E. Lewis.

Ymddiheuriadau/Apologies: Cyng./Cllr. A. Richards;  
Cynghorydd Sir/County Councillor Meirion Davies

- |  |   |
|--|---|
| <p>259. <b>Materion Personol</b><br/>Dymunwyd longyfarchiadau i'r Cynghorydd Elen Lewis a'r teulu ar enedigaeth Wŷr bach yn ddiweddar.</p>   | <p><b>Personal Matters</b><br/>Congratulations were extended to Councillor Elen Lewis and family on the recent birth of a grandson.</p>   |
| <p>260. <b>Datgelu Buddiannau Personol</b><br/>Atgoffwyd yr aelodau i ddatgan diddordeb wrth drafod eitemau.</p>   | <p><b>Disclosure of Personal Interest</b><br/>Members were reminded to declare an interest when discussing items.</p>   |
| <p>261. <b>Asesiad Risg ac Asedau</b><br/>Nid oedd materion yn codi o ran yr Asedau.</p>   | <p><b>Risk and Asset Assessment</b><br/>There were no matters arising regarding Assets.</p>   |
| <p>262. <b>Cofnodion Cyfarfod Diwethaf</b><br/>Cadarnhawyd a derbyniwyd cofnodion y 26ain Chwefror 2024. Cynigiwyd cywirdeb gan Cyng. A. Evans ac eiliwyd gan Cyng. P. Bonner.</p>   | <p><b>Minutes of the Last Meeting</b><br/>The minutes of the 26th February, 2024 were confirmed and accepted, proposed by Cllr. A. Davies and seconded by Cllr. P. Bonner.</p>    |
| <p>263. <b>Materion yn Codi o'r Cofnodion</b><br/>Materion canlynol parhau angen sylw Cyngor Sir Ceredigion gyda'r Clerc i ddilyn y materion gyda'r Cyngor Sir:</p>                  | <p><b>Matters Arising from the Minutes</b><br/>Following matters continue needing attention by Ceredigion County Council with the Clerk to follow up with the County Council:</p> |
| <p>264. Materion hanesyddol o ran arwyddion enwau: arwydd Maesyfelin yn Llanafan angen ail-osod; arwydd pentref Cnwch Coch wedi diflannu.</p>  | <p>Historical issues regarding name signs: Name sign of Maesyfelin in Llanafan needs re attaching and village sign of Cnwch Coch has disappeared.</p>                             |
| <p>265. Brynafan a Cnwch Coch (ochr y ffordd a thyllau yn y ffordd), sefyllfa'n gwaethygu ym Brynafan a Cnwch Coch.</p>  | <p>Brynafan and Cnwch Coch (roadside and pot holes), situation getting worse in Brynafan and Cnwch Coch.</p>  |
| <p>266. Draeniau dwr a cylfat angen sylw:<br/>267. ar y ffordd heibio Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn a Cnwch Coch ynghyd â pholyn carreg wedi cwmpo ger drain ddŵr yn Cnwch Coch.</p> | <p>Blocked water drain and blocked culvert: road passing the school in Llanfihangel-y-Creuddyn; in Cnwch Coch as well as a stone pole sinking over a drain.</p>                   |

- |      |   |   |
|------|---|---|
| 268. | Ger Bringibdda, Llanfihangel-y-Creuddyn.  | Near Bringibdda, Llanfihangel-y-Creuddyn.   |
| 269. | Y bin halen ar Rhiw Troedrhifelen, Llanafan sydd wedi diflannu.   | The disappearance of the salt bin on Troedrhifelen Hill Llanafan.   |
| 270. | Tir lithriad ger ochr yr Afon Ystwyth tu cefn i Abermagwr.  | Landslide by the river bed of the River Ystwyth behind Abermagwr.   |
| 271. | Aros am ateb ar y materion Newydd: yr angen am fin sbwriel yn Llanafan.   | Awaiting for response for the new issues: the need for a waste bin in Llanafan  |
| 272. | Torri nol tyfiant sietin o dŷ preifat yn Llanafan sy'n amharu gwelededd wrth deithio o amgylch cornel yn y ffordd.  | Cutting back a privately owned hedge in Llanafan which impairs visibility when travelling around a corner.  |
| 273. | Draeniau dŵr wedi gorlenwi rhwng: Llanafan a'r B4340;   | Blocked water drains on the road between Llanafan and the B4340;  |
| 274. | Cnwch Coch a thuag at Llanfihangel-y-Creuddyn;  | within the village of Cnwch Coch and towards Llanfihangel-y-Creuddyn;   |
| 275. | ar waelod y rhiw ger Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn.   | at the bottom of the hill by Llanfihangel-y-Creuddyn School.  |
| 276. | Derbyniwyd cais gan drigolyn lleol yn gofyn am gymorth y Cyngor Bro i gysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion i ddatrys y broblem o'r draen ddŵr yn Cnwch Coch sy'n risg o lifogydd posibl i breswylwyr. | Request received from a local resident asking the Community Council to contact Ceredigion County Council to resolve the blocked water drain at Cnwch Coch which is a potential flooding risk for residents. |
| 277. | Tyllau yn y ffordd rhwng Llanfihangel-y-Creuddyn a Thrisant.  | Pot holes on the road between Llanfihangel-y-Creuddyn and Trisant.  |
| 278. | Cais i Gyngor Sir Ceredigion am fin halen wrth ymyl y ciosg coch ym Brynafan.   | Request for Ceredigion County Council to supply a salt bin near the red kiosk in Brynafan.  |
| 279. | Dŵr yn llifo allan i'r ffordd gyferbyn â mynediad i'r goedwig rhwng Llanafan a Brynafan.  | Water flowing on the road from near the forestry entrance on the road between Llanafan and Brynafan.  |
| 280. | Cyfeiriwyd fod cerbydau ar adegau wedi parcio wrth ymyl y ffordd yn Llanafan sy'n gwneud yn anodd i gerbydau eraill basio ar adegau.  | Concern was noted that at times in the centre of Llanafan there are vehicles parked on the roadside making it difficult for other vehicles to pass.   |
| 281. | Arwynebedd y ffordd yn erydi a drain wedi gorlenwi ar y ffordd o'r Gors ac o amgylch Penffordd.   | Road surface eroding and blocked water drains on the road from New Cross towards the roads leading from Penffordd.  |
| 282. | Materion o gofnodion Ionawr 2024:   | Matters arising from January 2024   |
| 283. | Gŵyl Tan ar y Mynydd. Tynnwyd sylw'r Cyngor Bro fod trefnwyr yr Ŵyl uchod yn adeiladu adeilad sefydlog ar gyfer toiledau yn Nghwmnewidion Isaf ar gyfer yr Ŵyl.                                       | minutes: Fire in the Mountain Festival. Attention of the Community Council was drawn that Festival organisers were building a permanent site for toilets in one   |

Clerc i gysylltu gyda Chyngor Sir Ceredigion i ymholi a oes caniatâd perthnasol wedi'u dilyn.

of the fields at Cwmnewidion Isaf. Clerk to contact Ceredigion County Council regarding relevant consent has been issued.

284. **Materion Cyllidol**

285. **Rhoddion:** Yn dilyn hysbysu'n y gymuned ac ar y we am geisiadau am nawdd ariannol o'r Cyngor Bro ac amodau Adran 137(4)(a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 Gwariant Adran 137 trafodwyd a chytunwyd ar y cyfraniadau canlynol:

**Finance**

**Donations:** Following placing a notice in the community and on the website inviting applications for funding from the Community Council and conditions Section 137 (4) (a) of the Local Government Act 1972 Section 137 the following were discussed and agreed upon:

286. £100.00 Clwb Ffermwyr Ifainc Trisant Cynigiwyd gan Cyng. A. Evans ac eiliwyd gan Cyng. P. Bonner. Datganodd Cyng. M. Davies ddiddordeb gan ymatal o'r trafodaethau.

£100.00: Trisant YFC Club . Proposed by Cllr. A. Evans and seconded by Cllr. P. Bonner. Cllr. M. Davies declared an interest and refrained from discussions.

287. £250.00 Neuadd Lisburn, Llanafan tuag at gostau rhedeg y Neuadd a'r toiledau tu allan. Cynigiwyd gan Cyng. Sh. Edwards ac eiliwyd gan Cyng. A. Davies

£250.00: Lisburne Hall Llanafan towards the running costs of the hall and outside toilets. Payment proposed by Cllr. Sh. Edwards and seconded by Cllr. A. Davies.

**Mantolen Ariannol**

288. Taliadau: Costau Banc £5.80 Ionawr 2024; £5.80 Chwefror 2024; £5.40 Mawrth 2024.

**Financial Statement**

Bank Charges: £5.80 January 2024; £5.80 February 2024; £5.40 March 2024.

289. Derbyniadau: Derbyniwyd Llog banc o £9.87 ar 1af Mawrth 2024.

Receipts: Bank interest of £9.87 was received on 1<sup>st</sup> March 2024.

290. Aelodaeth Un Llais Cymru: Cytunwyd i dalu £186.00 am y flwyddyn 2024/25. Cynigiwyd y taliad gan Cyng. E. Lewis ac eiliwyd gan Cyng. M. Davies,

One Voice Wales Membership: It was agreed to pay £186.00 for the 2024/25 year. Payment proposed by Cllr. E. Lewis and seconded by Cllr. M. Davies.

291. **Cyfrifon 2022/2023**

Derbyniwyd y cyfrifon wrth yr Archwilydd Allanol gyda chanlyniad cymwysedig ar y cyfrifon gyda'r neges isod gan yr Archwilydd Cyffredinol Cymru:

*Yn fy marn i, nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn gyson â Datganiad Llywodraethu'r Cyngor Trefniadau rheoli a llywodraethu mewnol ar gyfer y flwyddyn:*

**Accounts 2022/2023**

Accounts received from External Auditor with a qualified conclusion with the following statement from the Auditor General for Wales:

*In my opinion, the Annual Governance Statement is not consistent with the Council's internal controls and governance arrangements for the year:*

• *Assertion 1 and 3: Prior to issuing its precept the Council is required to calculate*

• *Atodiad 1 a 3: Cyn cyhoeddi ei praesept mae'n ofynnol i'r Cyngor gyfrifo ei gofynion cyllidebol yn unol â Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. Wrth gyfrifo ei ofyniad cyllidebol, ni chymerodd y Cyngor i ystyriaeth incwm cyfrif neu gronfeydd wrth gefn.*

• *Atodiad 3: Nid yw'r Cyngor wedi cyhoeddi gwybodaeth ar ei wefan sy'n ofynnol i gyhoeddi o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2004*

Gwneir trefniadau perthnasol i gyhoeddi'r cyfrifon.

292. **Cyfrifon 2023/2024**

Bydd y Clerc yn cyflwyno'r cyfrifon i'r Archwilydd Mewnol.

293. **Gohebiaeth**

294. Arolwg o'r Trefniadau Cymunedol ar Gyfer Cyngor Sir Ceredigion

Derbyniwyd ymgynghoriad gan Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru gydag un o'r argymhellion fyddai uno Cyngor Bro Llanilar a Chyngor Bro Trawsgoed.

Yn dilyn trafodaeth codwyd nifer o bwyntiau yn gwrthwynebu i'w cyflwyno ar gyfer yr ymgynghoriad.

Y Cadeirydd a'r Clerc i baratoi ymateb o wrthwynebiad i'r argymhellion.

295. Cais gan Gyngor Sir Ceredigion am gynrychiolydd Cynghorwyr Tref a Chymuned ar gyfer Pwyllgor Moseg a Safonau Cyngor Sir Ceredigion. Ni dderbyniwyd yr un enw.

296. **Ceisiadau Cynllunio A240195 Former Land Of Caeglas, Llanfihangel-y-creuddyn. *Change current setup to have cabins located on the site all year round instead of the seasonal tents currently used.***

Trafodwyd y cais cynllunio yng nghyfarfod Cyngor Bro Trawsgoed a thynnir sylw at ymateb y Cyngor Bro a wnaed ar gais gwreiddiol yn ymwneud a'r safle yn 2020 ble mae'r un sylwadau yn parhau'n

*its budget requirement in accordance with the local Government Finance Act 1992. When calculating its budget requirement, the Council did not take into account income or reserves.*

• *Assertion 3: The Council does not publish on its website information it is required to publish by the Local Government (Democracy) (Wales) Act 2004*

Necessary arrangements to be undertaken to publish the audited accounts.

**Accounts 2023/ 2024**

The Clerk will present the accounts to the internal auditor.

**Correspondence**

Review of Community Arrangements of The County Of Ceredigion.

A consultation document received from /// was discussed where the proposal is to amalgamate Llanilar Community Council and Trawsgoed Community Council.

Further to discussions a number of issues were raised objecting to the proposal to be put forward as a response to the consultation.

The Chair and Clerk to prepare a response of objection to the proposals.

Request from Ceredigion County Council for a Town and Community Councillor Representative for Ceredigion County Council's Ethics and Standards Committee. No names were forthcoming.

**Planning Applications- A240195 Former Land Of Caeglas, Llanfihangel-y-creuddyn. *Change current setup to have cabins located on the site all year round instead of the seasonal tents currently used.***

The planning application was discussed at a meeting of Trawsgoed Community Council and attention is drawn to the Community Council's response made on an original application relating to the site in

berthnasol i'r cais yma gyda sylwadau ychwanegol i'w cynnwys i'r Adran/Pwyllgor Cynllunio ystyried fel y nodir:

O ystyried bod ffyrdd yr ardal angen gwaith cynnal a chadw sylweddol arnynt yn barod bydd cael twristiaeth i'r ardal ar hyd y flwyddyn yn creu mwy o drafferthion i'r ffyrdd;

Teimlir nad yw'r fynedfa i'r safle yn addas ar gyfer datblygiad parhaol gyda mwy o draffig yn achosi mwy o berygl i ffordd wledig gul.

Nid yw'r defnyddiau a nodir yn y cynlluniau yn addas ar gyfer delwedd sydd angen o fewn pentref Llanfihangel-y-Creuddyn, byddai defnyddio ffenestri plastig a glaswellt artiffisial ayb yn amharu ar olygfa arbennig yr ardal.

Nid oes digon o fanylion yn y cais ar gyfer trefniadau'r system ddraenio a gorlifo'r dwr.

Mae lleoliad y datblygiad yn rhy agos i Ysgol Gynradd a fydd yn achosi amheuon o ddiogelwch y disgyblion drwy'r flwyddyn ac nid yn nhymerol yn unig.

### **Ymateb Cyngor Bro Trawsgoed 2020**

Fel Cyngor Cymuned rydym yn cefnogi egwyddor y cais hwn, sy'n ceisio cyflwyno twristiaeth a busnes i'r ardal, ond teimlir bod y lleoliad a gyflwynir ar hyn o bryd ar gyfer y cynnig, sydd yn agos at yr Ysgol Gynradd leol yn anaddas ac amhriodol.

Mae pryderon ynghylch diogelwch a lles disgyblion ysgol yn flaenoriaeth, ac rydym yn deall bod pryderon tebyg wedi'u codi gan eraill yn y gymuned.

Nid oes unrhyw wybodaeth benodol o fewn y cais i nodi sut y bydd y gwastraff o'r cawodydd a'r toiledau compostio'n cael eu gwaredu, a fyddai hyn yn cael effaith amgylcheddol ar y pentref gydag arogleuon annymunol posibl yn deillio o'r safle?

2020 where the same comments apply to this application as well with additional comments to be included as indicated for the Planning Department/ Committee to consider:

Given that the public roads in the area already require significant repair and maintenance having tourism to the area throughout the year will increase the problems;

It is felt that the entrance to the site is not suitable for permanent development with increased traffic posing a greater risk to a narrow country road.

The materials set out in the plans are not suitable for an image of the village of Llanfihangel-y-Creuddyn, the use of plastic windows and artificial grass etc are not in-keeping with the views of the area.

There's not enough details in the application regarding the drainage system and the water overflow.

The location of the development is too close to a Primary School which will cause concerns of the safety of pupils all year round and not just seasonally.

### ***Response of Trawsgoed Community Council 2020***

*As a Community Council we support the principle of this application, which seeks to introduce tourism and business to the area, but feel that the location currently put forward for the proposal, which is within the close proximity to the Local Primary School and its grounds is not suitable and inappropriate.*

*Concerns over the safety and wellbeing of school pupils are paramount, and we understand that similar concerns have been raised by others in the community.*

*There is no specific information in the application of how the waste from the showers and the composted toilets will be disposed of, would this have an environmental impact on the village with*

Mae'r cais yn nodi na fydd unrhyw gyflenwad dwr na thrydan ar y safle ond nid yw'r cais yn nodi o ble y daw'r dŵr ar gyfer y cawodydd, na manylion os bydd a sut y bydd y safle'n cael ei oleuo yn y nos gan na fydd trydan ar y safle?

Mae'r ymgeisydd yn nodi mai datblygiad tymhorol fydd hwn, ond os derbynnir cais byddid yn fodlon codi'r pebyll yn ystod misoedd yr Hydref a'r Gaeaf, a fyddai'r datganiad hwn yn wahoddiad i ganiatáu i'r pebyll glampio fod ar y safle mwyafrif y flwyddyn?

Awgrymir bod yr ymgeisydd yn ail-ystyried y lleoliad ar gyfer lleoli'r pebyll glampio, nad sydd o fewn cyffiniau'r Ysgol Gynradd.

Fel y mae yn ei leoliad presennol ac am y rhesymau a nodwyd uchod, mae'r Cyngor Cymuned yn gwrthwynebu'r cais cynllunio. A240213 Lodge Fach, Trawscoed, Aberystwyth. *Installation of a LPG Tank within the grounds of a listed building*

297. **A240213 Lodge Fach, Trawscoed, Aberystwyth.** *Installation of a LPG Tank within the grounds of a listed building*

Ymateb y Cyngor Bro: Dim gwrthwynebiad.

298. Rhannu Gwybodaeth

299. Derbyniodd y Cyngor Bro wybodaeth fod coed hanesyddol wedi eu torri ar ochr ffordd gyhoeddus o fewn yr Ardal. Cyswllt i'w wneud gyda Chyngor Sir Ceredigion i drafod a oedd caniatâd perthnasol wedi trefnu.

300. Tyllau newydd yn y ffyrdd wedi ymddangos, yng nghanol Cnwch Coch;

301. ger Tŷ Mawr ar y ffordd o Lanfihangel-y-Creuddyn i Drisant;

302. Arwynebedd y ffordd yn wael ar y ffordd sy'n arwain heibio Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn; hefyd

303. o gyffordd uchaf y ffordd heibio Llanerch yr oen.

*possible unpleasant odours emanating from the site?*

*The application notes that there will be no amenities on site but the application doesn't state from where the water for the showers will be sourced from, nor details if and how the site will be lit at night as there will be no electricity in the field?*

*The applicant states that this is a seasonal proposal but that if requested the tents could be erected during the Autumn and Winter months, would this statement be an invitation to allow the glamping tents to be on site the majority of the year?*

*We would suggest that the applicant reconsiders an alternative location for the glamping tents, and which are distanced from the Local Primary School.*

*As it stands in its current location and for the reason stated above, the Community Council objects to the proposal.*

**A240213 Lodge Fach, Trawscoed, Aberystwyth.** *Installation of a LPG Tank within the grounds of a listed building*

Response of the Community Council: No objection.

### **Sharing of Information**

The Community Council received information that historic trees had been felled on the side of a public road within the Ward. Contact to be made with Ceredigion County Council to discuss if relevant permission was received.

New potholes have appeared, in the middle of Cnwch Coch;

near Ty Mawr on the road from Llanfihangel-y-Creuddyn to Trisant;

The road surface leading near Ysgol Llanfihangel-y-Creuddyn; also

from the upper junction of the road past Llanerch yr oen needs attention.

304. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**  
Nos Lun 20fed Mai 2024 am 7.30y.h. yn  
Neuadd Lisburne, Llanafan.

**DATE OF NEXT MEETING**  
Monday 20th May, 2024 at 7.30p.m. at  
Lisburne Hall, Llanafan.